



Cwmni

Rhifyn 215

Pris 80c

Mis Awst a Medi 2019



Caerffili yn ei Blodau

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ **Cwmni** 

e-bost: [Golygydd@papurecwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurecwmni.cymru) benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Cyfarfod Blynyddol



Nos Lun, 16eg o Fedi am 7:00

Ysgol Gymraeg Caerffili

Croeso Cynnes i Bawb.

Dewch i rannu eich syniadau a'ch awgrymiadau

Oedfaon Capeli Mis Medi

Bedyddwyr Tonyfelin

1af	Yn Bethel
8fed	10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
15fed	Yn Bethel trwy'r dydd
22ain	10.30 : Gareth Hughes 6.00 : Parch Glyn Tudwal Jones
29ain	10.30 a 6.00 : Parch Robert Owen Griffiths

Annibynwyr Bethel

1af	10.30 Gareth Hughes
8fed	10.30 Parch. Robert Owen Griffiths ©
15fed	10.30 a 6.00 Parch Maldwyn Jones (Plymouth)
22ain	10.30 Gyda Tonyfelin
29ain	10.30 Dr Neville Evans

Penuel, Rhymni

Rev. M. Marsden

Parch Evan Morgan

Capel y Groeswen

8fed Vaughan Roderick
ANNIVERSARY SERVICE
3:00 y.p.

Cwm Ni yn Y Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Heledd Gwynant o Gaerffili a Harry



Lovell Jones o Gaerdydd ar ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y ddeuawd offerynnol agored yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni. Plesiwyd y panel o feirniaid wrth iddynt chwarae darn heriol o'r enw "Fel Un" ("As One") gan Gene Konshinki ar offerynnau taro amrywiol gan gynnwys marimba, congas

a bongos.

Mae'r ddau yn astudio offerynnau taro yn Llundain. Mae Heledd ar fin cychwyn ei thrydedd flwyddyn yn y Coleg Cerdd Brenhinol a Harry newydd raddio o'r Academi Frenhinol. Cyn yr Eisteddfod bu'r ddau yn brysur yn mynychu cwrs Cerddorfa Genedlaethol leuenctid Cymru. Bu Heledd hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o berfformiadau ar faes yr Eisteddfod gyda Band Pres Llareggub ac yn canu gyda Chôr Llundain yn y gystadleuaeth gorawl ar y nos Wener olaf.

Bu ein parti llefaru lleol, Lleisiau Rhymni, yn cystadlu yn y gystadleuaeth i bartïon hyd at 16 mewn nifer. Er iddynt roi perfformiad canmoladwy o 'Gwylanod Llandudno' gan Aled Lewis Evans, ni chawsant y cyfle i ymddangos ar lwyfan y Brifwyl. Y cwmni buddugol oedd Genod Garmon o'r Wyddgrug, Gemau Llŷn yn ail a Rhiannedd y Cwm, Penllyn ac Uwchaled yn drydydd. Fe fwynheuodd Lleisiau Rhymni gystadlu ar gerdd sy'n llawn doniolwch a braf oedd gweld y bardd ei hun yn y gynulleidfa yn y rhagbrawf yn amlwg yn cael mwynhâd.

Roedd Y Parchedig Denzil John yn aelod o Gôr Meibion Taf a fu'n cystadlu yn un o Gôr Meibion oedd heb fod yn llai na 20 mewn nifer. Roedd y ffaith fod 15 côr yn cystadlu yn record. O ddiddordeb hefyd i'n darllenwyr yw'r ffaith mai Steffan Jones, Wyr Y Parchedig a Mrs Milton Jenkins sy'n arwain y côr hwn. "John's Boys" o Rosllannerchrugog, sydd wedi ennill cymaint eleni, oedd yn fuddugol y tro hwn.

Roedd cwmni drama Cwmni Cwm Ni wedi plesio cynulleidfaoedd yr ardal gyda'u perfformiad o "Y Gwcw". Ond er na ddaethant o fewn y tri cyntaf yn Llanrwst, rhaid cofio iddynt wneud yn dda i gyrraedd yno gan eu bod yn un o ddim ond pum cwmni yn y rownd derfynol allan o'r deg a oedd wedi dechrau'r gystadleuaeth. Mewn cystadleuaeth a oedd, ym marn y beirniaid, yn eithriadol o gryf, dywedodd y beirniaid, "Cynhyrchiad slic, taclus a chydchwarae bendigedig gan griw profiadol, oedd yn amlwg yn mwynhau eu hunain ar lwyfan. Roedd teimlad braf a chynnes wrth eu gwyllo."

Plesiwyd pawb o wybod i Tracey Neale gyrraedd y rhestr fer ar gyfer actor gorau'r gystadleuaeth. Dywedodd y beirniaid i'w "phresenoldeb ddisgleirio gyda'i gwên a'i hiwmor". Yn haeddiannol fuddugol oedd. Llaur Ddyrnu gyda'u perfformiad o "Y Fainc"; yn ail Ysgol Glanaethwy gyda "Dan y Wenallt" ac Uwch Aled yn drydydd gyda "Gwesty Garibaldi".

Dyma Angela a Peredur Griffiths, o Benrhos, Caerffili, aelodau o Gôr CF1, oedd yn fuddugol yn y brif gystadleuaeth gorawl. Brawd Peredur, Eilir,



yw arweinydd y côr oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth ac enillodd ef hefyd y wobwr fel yr arweinydd gorau o blith yr holl gorau.

Ben Jones

Ymddeoliad Hapus – IAWN!!!

10fed Ebrill 1961 a 22ain Gorffennaf 2019. Dau ddyddiad â mwy na hanner canrif yn eu gwahanu ond wedi'u cysylltu'n glos oherwydd cyrchfan. Yr un oedd y gyrchfan ar y ddau ddyddiad, sef Ysgol Iau y Gwyndy, fel y'i hadwaenid yn y chwedegau, sef Canolfan Dechrau'n Deg y presennol.

Ar y diwrnod hanesyddol hwnnw ym 1961, cerddais i mewn i'r Gwyndy, lle'r oedd T. H. Williams yn bennaeth, a'i wraig Mabel yn athrawes, i ddechrau ar fy ngyrfa addysgol. Roeddwn yn bedair oed ac yn un o'r dosbarth cyflawn cyntaf yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Caniatwyd i'r egin 'ysgol Gymraeg' feddiannu un ystafell yn yr ysgol ac yn fy nosbarth i, roedd tua 20 o ddisgyblion a Mrs Davies – Moyra – mam – oedd yr athrawes. Roedd llond dwrn o blant hŷn, dwy yn wyth oed a dwy saith oed a ninnau oedd arloeswyr addysg Gymraeg yng Nghaerffili.

Mewn cyfnod cyn dyfodiad Rhydfelen, mawr yw fy edmygedd o'r rhieni cynnar a fentrodd anfon eu plant i'r ysgol, yn enwedig y rhai di-Gymraeg. Roedd ambell deulu ag un rhiant yn rhugl, fel Mrs Clapham o Lanbradach â'i theulu'n hanu o Benrhyndeudraeth, ond wyddwn i ddim am y pentre' nid nepell o Borthmadog yr adeg honno. Roedd llawer o deuluoedd eraill heb yr un rhiant yn siarad yr iaith, ond rhaid bod argyhoeddiad pobl megis Lily a H. P. Richards, Bryn John, Glyn Tilley, Beti Peters, Fred Williams ac E. M. Thomas wedi'u darbwyllo taw dyma'r ffordd ymlaen.

Roedd ambell athro, Cymraeg ei iaith, yn barod i feirniadu mam am gynnwys ei phlant mewn 'arbrawf' ond diolch byth am ei gweledigaeth, ei hegni a'i hymroddiad i sicrhau llwyddiant y fenter.



Nia a'i chyd ddisgyblion a'u hathrawes, ei mam Mrs Moyra Davies a'r prifathro Mr T.H.Williams

Mae sawl llun o'r cyfnod, gyda mam yn sefyll ar un pen o'r rhesi disgyblion a 'T. H.' y pen arall, rwyf innau'n eistedd wrth ochr yr un plentyn ym mhob un. Mae'r cyfeillgarwch cynnar hwn wedi para oes, ac er ein bod am gyfnodau bob blwyddyn, yn byw ar gyfandiroedd gwahanol, rydw i ac Anne Tilley yn dal i gadw cysylltiad ac yn cyfarfod am glonc bob hyn a hyn.



Nia ar ei diwrnod olaf yn yr ysgol lle dechreuodd ei gyrfa.

Yn dilyn Rhydfelen, fe es i'r Coleg Normal gan hyfforddi fel athrawes gynradd. Cefais y pleser o ddysgu mewn sawl ysgol – Rhyd y Grug, Ifor Bach, Y Castell, gan gyd-weithio gyda staff arbennig a phlant difyr dros ben. Yna es at yr Awdurdod i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar y plant ieuengaf.

Yn ystod y cyfnod hwn, cefais i a fy nhîm ein lleoli mewn sawl canolfan – Ysgolion Fochriw, Cefn Fforest a Phenallta, ond yr olaf oedd Canolfan Dechrau'n Deg, sef hen Ysgol Iau y Gwyndy. Felly i fynd yn ôl at yr ail ddyddiad - dydd Llun 22ain Gorffennaf eleni, sef 58 mlynedd ar ôl i mi gerdded i mewn drwy'r drysau fel disgybl ifanc, roeddwn yn cerdded allan o'r un drysau ar ddiwedd fy ngyrfa fel athrawes. Bu newidiadau mawr yn ystod yr hanner canrif o ran addysg Gymraeg yn nhre Caerffili gyda dwy ysgol gynradd ffyniannus yn ogystal â rheiny yn y pentrefi cyfagos a'r adran uwchradd yn ddatblygiad naturiol a chyffrous.

Diolch am y cydweithio a'r cyfeillgarwch a fu ar hyd y blynyddoedd ac i'r holl blant ddaw i ddweud, 'Helo, Mrs Parsons' pan fyddaf o gwmpas y sir; mae gen i atgofion melys a llaweroedd o straeon i godi gwên. 'Dwy ddim yn cofio'r tywydd pan gyrhaeddais y Gwyndy ym 1961, ond roedd yr haul yn gwenu wrth i mi ymadael yn 2019 a chychwyn ar bennod newydd yn fy mywyd.

Eurig Bowen



Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Verona Bowen a'r teulu ar farwolaeth Eurig ar y 26ain o Orffennaf yn 68 mlwydd oed . Yn enedigol o Fachynlleth, mynychodd Eurig ysgolion Dyffryn Aman ac Ardwyn cyn mynd ymlaen i dderbyn hyfforddiant i fod yn athro yn Athrofa Cyncoed, Caerdydd. Daeth i'r ardal hon i fod yn athro yn Ysgol Gilfach Fargod lle gwnaeth llawer gyda gweithgareddau chwaraeon.

Athrawes ymarfer corff yn Ysgol Lewis i Ferched oedd Verona. Ond wedi geni Huw mentrodd i mewn i addysg gynradd gan fod yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod tan ei hymddeoliad.

Ymgartrefodd y teulu ym Mhenpedairheol ac roeddent yn edrych ymlaen at groesawu eu hwyr gyntaf gyda Huw a'i wraig i ddod yn rhieni.

Mae wedi bod yn gysur i'r teulu wybod i Eurig dderbyn yr Iesu fel Gwaredwr yn ystod ei waeledd. Yn galaru yn eu colled mae mam Eurig sydd yn byw yn Aberystwyth ac sy'n 90 mlwydd oed; felly, hefyd, mam Verona sydd yn 98 oed ac yn byw yn Abertawe.

Cofio Anne Turley

Collon ni un o ddysgwyr mwyaf llwyddiannus ein cwm ni yn ddiweddar, sef Anne Turley, Bryngwyn, Caerffili. (3ydd o Fai 1941 – 30ain o Fai 2019)

Roedd Anne yn enedigol o Ferthyr ond yn ifanc iawn fe ddaeth i Gaerffili i fyw gyda'i rhieni a'i brawd. Yn ddiweddarach gweithiodd am flynyddoedd yn ardal Llundain fel athrawes Saesneg ac ar ôl dychwelyd i'w hen gartref yng Nghaerffili, aeth i weithio yn Ysgol Sant Ilan. Bwrodd ati i ddysgu Cymraeg ac roedd yn arfer mynychu llawer o gyrsgiau, gan gynnwys Ysgolion Undydd Coleg Gwent, ble cwrddais i â hi gyntaf.



Roedd hi'n berson cyfeillgar a hawddgar ac yn hoff iawn o gymdeithasu yn y Gymraeg. Roeddwn i'n mwynhau ei chwmni'n fawr yn y boreau coffi a'r clybiau darllen; roedd hi wrth ei bodd yn darllen a thrafod straeon a nofelau Cymraeg.

Ymunodd Anne â Merched y Wawr ac roedd yn cefnogi llawer o weithgareddau Menter Iaith Sir Caerffili. Roedd hi hefyd yn aelod ffyddlon o Gapel Mount Carmel ac yn mynychu'r clwb i athrawon wedi ymddeol. Roedd hi'n berson annibynnol a mentrus ac roedd wrth ei bodd yn cerdded a theithio.

Mae'n chwith iawn ar ei hôl hi.

Jan Penney



Cawsom wybod beth amser yn ôl y byddai Wil Morus Jones yn rhoi'r gorau i'r gwaith o arwain Bangla Cymru . Bu'n aflwyddiannus wrth geisio dod o hyd i wirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith. Bu'n bleser gan "Cwmni" fedru cefnogi'n achlysurol yr ymdrech aruthrol wnaeth Wil i wella plant ym Mangladesh o'u hanafiadau.

Mae'n gadael y sefydliad mewn sefyllfa ariannol iach gyda swm swmpus o dros £57,000 i barhau'r gwaith. Fe gyst rhedeg y ganolfan yn Chittagong oddeutu £12,000 y flwyddyn â'r priod waith o gynnal llawdriniaeth tua'r un cyfanswm. Diolch i Wil am ei holl waith dros nifer o flynyddoedd.

TYMOR NEWYDD RYGBI Sefyllfa ein Clybiau Medi 2019

Mae llawer o ffans rygbi o'n nghenedlaeth i yn edrych 'nol yn hiraethus ar gyfnod llewyrchus y 70au - oes Gareth a Gerald, a Myrf y Swyrf. Dim ond dwy gynghrair oedd yn bwysig ar y lefel uwch - Y Pum Gwlad (yr Eidal yn ddibwys yn yr oes yna) a Phencampwriaeth y Western Mail lle'r oedd Tredegar, Penarth ac Abertyleri yn rhwbio ysgwyddau gyda mawrion clybiau ein cenedl.

Roedd y clybiau 'lleiaf' yn gwybod eu lle! Yr unig gyfle i'w chwaraewyr gystadlu yn erbyn Phil Benett, Brian Price neu reng flaen Pontypŵl oedd mewn gêm Cwpan Undeb Cymru - byth mewn gêm gynghrair. Fyddai neb wedi rhagweld Caerffili yn croesawu Llanelli neu Gaerdydd i Barc Virginia yn y Bencampwriaeth. Neb yn breuddwydio byddai Bargod yn y dyfodol yn chwarae Castell-nedd ar y Gnoll a Pharc Bargod mewn tymor.



Erbyn hyn mae holl glybiau Cymru o dan y strwythur ranbarthol wedi'u trefnu mewn cynghreiriau ac adrannau gyda dyrchafiad a gostyngiad ar ddiwedd pob tymor.

Ond ydych chi'n gwybod mewn ym mha gynghrair/adran mae eich clwb lleol chithau yn chwarae a pha lwyddiant gawson nhw llynedd? Dyma grynoded o dimau Sir Caerffili ac os ydych yn teimlo fel camu allan i'w cefnogi, rhestr o'r gemau agoriadol ar y Sadwrn cyntaf, y 7fed o Fedi

Eyron Thomas

ADRAN	SAFLE 2018/19	ADRAN LLYNEDD	GEM 1af TYMOR Adref (ad) Ffwrdd (ff) 7 Medi 2019
PENCAMPWRIAETH			
Bargod	15	Uwchgynghrair	Met Caerdydd (ff)
Bedwas	13	Uwchgynghrair	Cross keys (ad) 8/9/19
Cross keys	14	Uwchgynghrair	Bedwas (ff) 8/9/19
CYNGHRAIR		DWYREINIOL	1
Penallta	3		Trefynwy (ff)
Risca	6		Brynmawr (ad)
Nelson	7		Trecelyn (ad)
Bedlinog	9		Pontypwl Utd (ad)
Trecelyn	11		Nelson (ff)
Senghenydd	2	Dwyreiniol 2	Dowlais (ff)
CYNGHRAIR		DWYREINIOL	CANOLOG 2
Caerffili	6	Dwyreiniol 2	Y Bont-Faen (ad)
CYNGHRAIR		DWYREINIOL	2
Coed duon	9		Caldicott (ad)
Oakdale	1	Dwyreiniol 3	Croesyceiliog (ad)
Ynysddu	7		
CYNGHRAIR L 3A		DWYREINIOL	3A
Abercarn	12	Dwyreiniol 2	
Abertysswg	4		Rhymni (ad)
Deri	7		Brynbuga (ff)
Machen	8		Tredegar Ironsides (ff)
Rhymni	1	Dwyreiniol 3B	Abertysswg (ff)
CYNGHRAIR		DWYREINIOL	3B
Fleur de lys	11	Dwyreiniol 2	St Julians HSOB (ad)
Aberbargod	5		Trinant (ad)
Tredegar Newydd	6		Whiteheads (ff)
Ser Coed duon	10		Panteg Newydd (ff)
CYNGHRAIR		DWYREINIOL	3C
Crymlin	5		Crughywel (ad)
Pontllanfraith	8		Trefgwilym (ff)

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Mae enw 10 man a welir ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

GORSEDD CADAIR CORON

THEATR PAFILIWN SIOPAU

Y BABELL LÊN CHWARAEON

SINEMAES Y LLE CELF

Mae'r atebion ar dudalen 19

Dathlu Genedigaeth



Harri Mac Mills Evans yw'r cymeriad diddig iawn yr olwg yma. Fe'i ganwyd yn ysbyty'r Waun ar Fai 26ain. Mae Ellie ei chwaer fawr yn dipyn o gymorth gartref ac mae pawb wrth eu bodd!

Mae'r teulu'n byw ym Mharc Penrhos. Mae Harri'n wŷr i Anne Evans, Tŷ Isaf, a fu gynt yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili.

Mae ei dad, Gareth, yn athro yn Ysgol Cwm Derwen a chyn hynny roedd yntau yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Yno, hefyd, mae Ellie ei chwaer ar fin cychwyn y tymor hwn a bydd hi'n braf gweld Harri yn ymuno â'i chwaer fawr yno mewn dim o amser. Mae eu mam Vicky yn Rheolwraig Datblygu Gwasanaethau yn Ysbyty Velindre.

Mae Harri yn gefnder newydd i Oliver sy'n 5 mlwydd oed a'i chwaer Ella sy'n dair. Plant Alun, brawd Gareth, yw'r rhain ac maen nhw'n byw ym Mhenllergaer.

Hanes o'n cwmpas gan Dr Elin Jones

Dyma ni ym mis Medi - mis y cynhaeaf, fel mae'r enw Cymraeg ar y mis yn awgrymu. Mae ein hanes o'n cwmpas ymhob man. Mae i'w glywed yn y geiriau a ddefnyddiwn, yn ein arferion cymdeithasol, yn ein bwyd a'n dillad hefyd. Mae hanes yn ddylanwad cryf ac anweledig arnom – cofiwch chi hynny, chi ddynion wrth i chi ddewis tei, a chlymu stribyn o ddefnydd dianghenraid am eich gwddf.

Diwedd yr haf felly oedd mis Medi yn y dyddiau gynt. Ond nid diwedd y flwyddyn amaethyddol yw Medi i'r rhan fwyaf ohonom heddiw, ond dechrau blwyddyn ysgol newydd. A dyma'r adeg pan fydd oedolion hefyd yn cychwyn ar gysiau addysgiadol. Mae llawer ohonynt yn dechrau dysgu Cymraeg, diolch byth. Nid pleser yw troi allan ar nosweithiau tywyll, oer yr hydref a'r gaeaf i eistedd mewn ystafell ddosbarth am ddwy awr i frwydro gyda'r treigladau. Dim ond Cymry o'r iawn ryw sy'n barod i ymroi fel hyn!

A beth am eu tiwtoriaid wedyn? Mae nifer fawr yn mynd ati i arwain dosbarth ar ddiwedd diwrnod o waith. Boed glaw neu hindda, dyma nhw wedi paratoi gwersi, wedi casglu deunyddiau ac adnoddau, yn torchi llewys ac yn mynd ati i godi hwyl a brwdfrydedd am ddwy awr a mwy.

Mae rhai o'r tiwtoriaid a'r dysgwyr yn barod i fynd ail a thrydedd filltir hefyd. Mae mwy i ddysgu iaith na meistroli geiriau a chystrawen yn unig. Mae cael cyd-destun yr iaith yn bwysig, ac fe ddylai pob iaith agor drws i'w diwylliant a'i hanes. Pleser felly oedd cael treulio cwpl o oriau yn ddiweddar yng nghwmni criw bach o ddysgwyr brwd a'u tiwtor ffyddlon. Y bwriad oedd mynd am dro o gwmpas peth o hanes Ystrad Mynach, i ymarfer eu Cymraeg a rhoi cyd-destun hanesyddol iddi.

Er law trwm ein rhwystro rhag cerdded ymhell, cawsom gyfle i chwilio am beth o'r dystiolaeth o'n gorffennol sydd o'n cwmpas. Cwrddon ni yn y Coopers Arms, lle cynhaliwyd gwledd i ddatlu priodas Katharine, merch y Parchedig George Thomas ym 1859. Fel y gwyddoch, dim ond enw ein hysbyty newydd sy'n ein hatgoffa bellach o blas ysblennydd Ystrad Fawr, a adeiladwyd ar y safle gan yr un George Thomas ym 1844. Ond mae rhai o ddysgwyr brwd ein cwm ni yn gwybod amdano nawr – ac yn gwybod bod Katherine a'i thad yn ddisgynyddion ein harwyr gwrthryfelgar, Ifor Bach a Llywelyn Bren. Katharine oedd y briodferch gyntaf i sefyll o flaen yr allor yn eglwys Ystrad Mynach, a sefydlwyd hefyd gan ei thad.

Caniataodd y glaw i ni gerdded draw i gapel Bethania, a godwyd ym 1867. Mae'r achos yno yn henach o lawer na hynny, fel a dystia'r hen fynwent. Gyda chymorth map o 1875, sylwon ni ar 'Lwybr y Meirw' dros y cae lle mae'r coleg yn sefyll heddiw – y ffordd y byddai trigolion Ystrad Mynach gynt yn cludo'r meirw i'w claddu ym mynwent Bethania. "A erys ond tawelwch i'r calonnau/Fu gynt yn llawenychu a thristáu?"

Ond 'nôl daeth y glaw, a 'nôl â ni wedyn i gysgod y Coopers. Diwedd ein taith hanesyddol, ond ninnau ond megis dechrau ar ddarganfod hanes ein cwm yn ogystal â'i hiaith.



*Plasdy Ystrad Fawr a roddodd
ei henw i'r Ysbyty newydd.
Hwn oedd cartref y teulu
Lindsay. Wedi hynny
bu'n bencadlys y Bwrdd Glo
Cenedlaethol a wedyn Cyngor
Dosbarth Cwm Rhymni
cyn ei ddymchwel*

Bugeiliaid y Stryd

Steve Sims ydw i, rwy'n Gadeirydd "Bugeiliaid Caerffili", tîm bach sy'n patrolio canol tref Caerffili. Yn gyntaf, beth yw Bugeiliaid y Stryd? Mae'r mudiad Bugeiliaid Stryd yn rhwydwaith rhyngwladol, cyd-enwadol o fentrau elusennol Cristnogol sy'n gweithredu o dan Drwydded Ymddiriedolaeth 'Ascension'. Mae Mentrau Bugeiliaid y Stryd yn darparu gwasanaethau i helpu pobl ar y strydoedd a mannau cyhoeddus eraill, yn rhoi arweiniad, cefnogaeth a chyfeiriadau sy'n helpu i osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleddfu salwch a chadw iechyd.

Yn gyffredinol, gwneir gwaith Bugeiliaid y Stryd yn ystod oriau'r nos gan wirfoddolwyr sy'n patrolio'r strydoedd. Maent yn cynnig cariad diamad i bawb, yn bennaf trwy wrando, gofalu a helpu pobl sy'n agored i niwed neu sydd ar y cyrion. Oedolion Cristnogol anfeirniadol yw Bugeiliaid y Stryd sydd yn aelodau o eglwysi lleol a gellir eu hadnabod wrth eu gwisg briodol amlwg a'u cerdyn adnabod. Maent yn ddynion a menywod sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol sy'n eu grymuso i gynnig presenoldeb Iesu ar y strydoedd, gan ddangos eu pryder dros les a diogelwch eu cymuned leol mewn ffyrdd ymarferol a rhagweithiol.



Yn y bôn, mae hyn yn digwydd trwy roi fflip-fflops allan, i ferched nad ydynt bellach yn gwisgo eu hesgidiau sodlau uchel, hefyd dŵr a lolïau. Rydym hefyd yn glust i wrando, lle gall person siarad yn rhydd heb gael ei farnu gan wybod bod rhywun yn gofalu a chanddynt amser i wrando.

Wrth i bobl ddod i adnabod Bugeiliaid y Strydoedd a sylweddoli nad ydynt yn rhan o'r Heddlu, maen nhw'n teimlo'n fwy abl i ymddiried ynddynt. Mae presenoldeb Bugeiliaid y Stryd yn aml yn ddigon i leddfu sefyllfa a allai ddirywio'n drais. Mae Bugeiliaid y Stryd hefyd yn gallu delio â sefyllfaoedd nad ydynt yn droseddol eto ond fel arfer byddent yn cynnwys presenoldeb swyddogion yr heddlu. Fel rhan o batrôl, ceir gwared ar y poteli a'r gwydrau a geir ar y strydoedd, Cânt eu gwaredu, er mwyn lleihau'r nifer o arfau posibl pe digwydd trais.

Mae Bugeiliaid Stryd Caerffili yn patrolio rhan uchaf canol y dref o 10 y.h. nos Sadwrn tan 2 fore Sul, gan gynnwys yr holl brif strydoedd o Ganolfan Gymunedol y Twyn hyd at Heol Sant Martin. Fel rhan o'u patrôl, maent yn sicrhau eu bod yn cwrdd â threnau sy'n dychwelyd o Gaerdydd ar ôl noson o fwynhau hyfrydwch y ddinas. Cymerir egwyl luniaeth fer am hanner nos cyn dychwelyd i'r strydoedd nes i'r nos ddod i ben. Mae tîm Bugeiliaid y Stryd mewn cysylltiad cyson â radio drwy gyfrwng y Radio Net Nos gyda CCTV y dref ac felly gyda'r gwasanaethau brys. Er ein bod yn annibynnol o'r heddlu rydym yn ymgymryd â hyfforddiant a roddir gan yr heddlu a'r gwasanaethau brys i gynorthwyo a gwella'r modd y gallwn helpu ein cymuned leol. Yn ddiweddar buom yn helpu i ddarparu un o'r 'pecynnau Triniaeth Asid' o gwmpas y dref. Dylai'r digwyddiad hwn ddod i mewn i'n cymuned. Mae timau Bugeiliaid y Stryd hefyd yn cwblhau adroddiadau am eu patrolau a rhannir y rhain gyda'r heddlu, er na roddir enwau arnynt, fel y gallant ddeall y gwaith a'i effaith yn well. Yn gyffredinol cydnabyddir bod presenoldeb Bugeiliaid y Stryd wedi arwain at ostyngiad o 70-80% mewn troseddau ar y strydoedd lle mae patrolau yn digwydd.

Bugeiliaid y Stryd yw'r elusen y dewisodd pwyllgor "Cwmni" ei chefnogi eleni.

Diolchwn i Steve Sims, Cadeirydd Bugeiliaid y Stryd am lunio'r erthygl hon a'i longyfarch ar gael ei wobrwyo am ei lwyddiant wrth ddysgu'r Gymraeg.

Y Golygydd

Y Wers Orau Erioed

gan Gareth W. Williams

Ysgol Glan Clwyd, y Rhyl tua 1964.

Dysgu beirniadu llenyddiaeth (Na, na, peidiwch â throi i ffwrdd eto!!)

Dyn barfog, trwyngoch â llais rhywbeth yn debyg i Brian Blessed oedd Peter Gruffydd. Roedd o'n dipyn o actôôôôôr. Doedd o ddim yn dysgu 3G1, a dim ond yn achlysurol y caen ni wers Saesneg ganddo, ond pan wnaeth o un diwrnod, roedd o'n brofiad rwy'n ei gofio dros hanner can mlynedd wedyn.

Roedd ei ddwrddio yn chwedlonol hefyd. Rwy'n ei gofio yn gafael mewn rhyw ddihiryn un tro a'i alw'n 'scrofulous urchin'. Dro arall wrth glywed rhywun yn rhegi yn ei ddosbarth, ddweud: 'Desist. That, my boy, is an Anglo-Saxon expletive derived from the procreation act of our species.' Wn i ddim os deallodd y bachgen ei eiriau ond regodd o ddim mwy.

'The Highwayman' gan Alfred Noyes oedd dan sylw yn y wers.

*The wind was a torrent of darkness among the gusty trees,
The moon was a ghostly galleon tossed upon cloudy seas,
The road was a ribbon of moonlight, over the purple moor,
And the highwayman came riding
Riding-riding*

The highwayman came riding, up to the old inn-door. ac ati.....

Wn i ddim os ydych chi'n gyfarwydd â'r gerdd. Jist y peth yw bod gan ferch y tafarnwr gariad, sef y lleidr pen ffordd. Mae milwyr sy am ei ddal yn ei chlymu hi i droed ei gwely yn wynebu'r ffenest i ddenu'r lleidr ac aros am ei ddyfodiad er mwyn ei saethu. Maen nhw, am ryw reswm, yn clymu gwn wrthi a hithau'n llwyddo i danio'r gwn i rybuddio ei chariad o'r peryg. Yn anffodus, mae'r fwled yn mynd trwy ei chalon. Stwff dramatig, rhamantus, da.


Darllenodd Peter Gruffydd y gerdd gydag arddeliad a gallai ei lais melfedaidd wasgu pob emosiwn allan o'r gerdd ac roedd y noson wyntog gyda'r lleuad yn llawn yn fyw yn ein meddyliau. 'What do you think of that?' holodd wedyn heb gynnig unrhyw farn. Aethon ni ati i gynnig beirniadaeth bositif am y delweddau a'r rhythm ac ati. Roedden ni'n dechrau gwybod sut i dicio'r bocsys angenrheidiol ar gyfer llond traethawd o feirniadaeth lenyddol. Gwrandawodd yntau yn astud ar ein sylwadau ni i gyd.

Roedd diwedd y wers yn dynesu a safodd Peter Gruffydd wrth y drws a'i law ar y ddolen. 'There's one thing you haven't asked,' meddai.

'What do you think of the poem, Sir?' holodd rhywun.

'Biggest load of crap I've ever read in my life,' meddai, a chau'r drws yn glep ar ei ôl.

Wow! Daeth aton ni y wers nesaf a thynnu'r gerdd yn rhacs.



Mae Gareth W Williams o Nelson wedi cyhoeddi nofel arall dros yr haf : Promenâd y Gwenoliaid. I'r rhai ohonoch gafodd flas ar nofelau ditectif Gareth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hon braidd yn wahanol ond lawn mor ddarllenadwy.

Nofel yw hi wedi'i lleoli yn erbyn cefnlen y diwydiant ymwelwyr yn y Rhyl, ym myd bingo, chips candi-fflos ac arcêd Mexico Joe ar y prom. Mae grŵp o ffrindiau agos yn dod yn ôl at ei gilydd fel gwenoliaid yn ystod haf '69, yn breuddwydio am gariad rhydd a mwynhau. Wrth ddod wyneb yn wyneb ag is-fyd bygythiol y dref, maen nhw'n sylweddoli bod eu realiti yn llawer llai addfwyn na byd y capel maen nhw i gyd wedi tyfu i fyny ynddo.

Cadeirio Ysgol Gymraeg Caerffili

Llwyddodd cystadleuwyr Cadair Ysgol Gymraeg Caerffili eleni adlewyrchu'n gywir iawn y newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn ein cymdeithas. Cyfeiriodd y beirniad, Dafydd Islwyn, yn gyntaf at fel y mae ysgrifennu creadigol wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn a bod y diolch am hyn i'r holl athrawon sy'n addysgu'r plant, o'u camau cyntaf.

Ond nid newid yn y safon yw'r unig beth. Gwelwyd trawsnewidiad wrth ymdrin â themâu. Atgoffwyd y gynulleidfa mor wahanol oedd ysgrifennu creadigol flynyddoedd yn ôl wrth i athrawon geisio arwain plant i ysgrifennu am bynciau fel "Hanes Hen Gadair Freichiau". Ie, gwahanol iawn yw'r ysgrifennu erbyn hyn wrth i'r gweithiau sôn am fywyd real a chyfoes. Roedd ymgeiswyr eleni wedi mentro trafod materion pob dydd fel y maent yn effeithio arnyn nhw. Cafwyd cyfeiriadau at fwlio, at gartrefi tlawd a chyffuriau ac at gemau cyfrifiadurol a'r syffrajetau. Yn ysgrifennu am gartrefi'n chwalu mae un cystadleuydd yn galw'i thad yn fochyn slei am adael ei mam er mwyn mynd gyda rhywun mae e wedi ei chyfarfod mewn tafarn. Mae ansawdd y mynegiant a ffiniau'r trafod yn ymestyn drwy'r amser.



A lleolwyd y straeon mewn amryw fannau dychmygus, megis cestyll, labordai, jyngl, cartrefi, cell mewn carchar a siop hufen iâ! A soniwyd am wyddonwyr gwallgof. Plesiwyd Mr Huws hefyd gan ddewis yr awduron o ffugenwau, cafwyd naw Gymraeg

a Chymreig i'r enwau, Kyffin Williams, Ceri Wyn, T. Llew Jones, Myrddin, Ryan Giggs ac, wrth gwrs, Aaron Ramsey. Er hynny teimlodd Dafydd Islwyn iddo eleni gael y ffugenw gorau a gafodd erioed - "Y Bws"!

Dewisodd y beirniad ganolbwyntio ar frawddegau da ym mhob un stori, fel "Y paent ar y wal fel petai'r paent a'r wal yn ffraeo". Yna un arall yn sôn am "goesau byr fel morgrugyn"; "Criodd Thomas fel baban bach yn treio ffeindio'i fam"; "Ffrind gorau Leila yw ei chi Rolo a'i got yn teimlo fel clustog felfed". Ond gan "Pawb yn y Neuadd" cafwyd yr un orau sef, "Baglodd yr haul dros y môr".

Tipyn o gamp felly dewis a dethol o blith y 49 o storïau a ddaeth i law. Ond, er cystal y safon, ni fu lawer o grafu pen gan i'r ail stori a ddarllenodd y beirniad o blith y pentwr daro deuddeg. Ac felly cyhoeddwyd mai stori "Blodwen" oedd honno sef, Mili Lewis a hi gafodd y fraint o fynd â'r Gadair adre eleni.

Llywiwyd Seremoni'r Cadeirio yn ddestlus iawn gan yr Archdderwydd Libby Harford gyda chymorth parod y Cofiadur Elin Williams. Roedd graen eto ar y côr yn canu Cân y Cadeirio a'r grwpiau o blant a gyflwynodd Weddi'r Orsedd a'r rhai a ddaeth ymlaen i longyfarch yr enillwyr. Cyrchwyd y llenor buddugol i'r llwyfan yn osgeidig gan yr osgordd.

Bu'n draddodiad ar hyd y blynyddoedd i'r gynulleidfa ganu geiriau Lewis Valentine "Tros Gymru'n Gwlad" wrth agor y Seremoni. Ac roedd Dafydd Islwyn wrth ei fodd o ddeall fod yr Eisteddfod Genedlaethol bellach i ddilyn esiampl Caerffili drwy gynnwys yr emyn yn y prif seremonïau o hyn ymlaen.

Yn ail i Mili Lewis oedd Sam Tân, sef Osian Ship. Rhannwyd y drydedd wobwr rhwng Bethan Williams (Kyffin Williams) a Holly Hughes (Cath Cŵl).

Llongyfarchiadau calonogol i'r pedwar yma ac i'r 45 arall a fu wrthi'n dangos eu doniau creadigol.



Dafydd Islwyn yn cael hwyl ar draddodi ei feirniadaeth

Beth tybed ddaw i'ch meddwl pan glywch y geiriau *Sul o Fawl* neu *Ganiadaeth y Gysegr*? I'r mwyafrif yr ateb fyddai cynulleidfa oedrannus yn morio canu yr hen emynau mawreddog i gyfeiliant organ bîb. Ond yn oedfa'r bore yn ein Sul o Fawl blynyddol yn Nhonyfelin, Caerffili, gwneir ymdrech arbennig i lunio rhaglen ysgafn a llawer mwy cyfoes sy'n apelio at blant a phobl ifanc.



Prin iawn bellach yw'r genhedlaeth iau o fewn yr eglwysi yng Nghwm Rhymni, felly estynnir gwahoddiad i blant yr ysgolion cynradd Cymraeg lleol a'u rhieni i ymuno â ni. Hyfryd unwaith eto oedd croesawu plant ac athrawon Ysgolion Cymraeg Caerffili a'r Castell atom, ac am y tro cyntaf un, Côr Ieuenctid Caerffili. Côr cyffrous newydd i blant blynyddoedd 4 i 9 yng Nghwm Rhymni yw hwn, ac er mai dim ond ers ychydig fisoedd y maent yn bodoli maent yn barod wedi creu argraff gyda'u canu swynol.

Anne Evans oedd yn arwain gyda Helen Hollyman wrth yr organ. Dyma ddwy sydd wedi perffeithio'r ddawn o greu awyrgylch gartrefol braf mewn oedfa o fawl. Cafwyd defosiwn gan blant Ysgol Sul Bryn Seion,

Ystrad Mynach a phwysleisiwyd moli ar gân a chyda lluo o offerynnau drwy gyfrwng salmau 100 a 150.

Addas iawn oedd y darnau hyn oherwydd mai nid canu i gyfeiliant yr organ yn unig a ddigwyddodd. I nifer fawr o'r emynau plant, cafwyd y plant yn ymuno gyda'r organ i gyfeilio ar lu o offerynnau cyfarwydd ac anghyfarwydd megis castanetau, maracas, y tamborîn, trionglau, y drwm glaw, clychau amrywiol, seiloffonau a phob math o offerynnau taro. Mor braf oedd gweld y plant yn mwynhau canu a chwarae'r holl offerynnau.

Cafwyd eitemau swynol hefyd gan Gôr Ieuenctid Caerffili a Chôr ar y cyd o blant o Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol y Castell.

Llawer mwy traddodiadol oedd oedfa'r hwyr yng nghapel Beulah, Abertridwr gyda Lowri Washington-Jones yn arwain. Cafwyd cwmni Côr Cymunedol Abertridwr, côr arall a ffurfiwyd yn weddol ddiweddar yn ardal Abertridwr a Senghennydd. Mae oedran y côr yma yn amrywio o'r ifanc i'r canol oed a'r rhai hŷn, ond wrth wrando arnynt mae'n amhosibl peidio â chael eich taro gan frwdfrydedd a mwynhad y côr hwn wrth ganu mawl. Roedd yr eitemau a gafwyd gan y côr yn amrywiol eu naws.

Gorffennodd y noson trwy gymdeithasu dros baned a lluniaeth ysgafn a baratowyd gan aelodau Beulah, Abertridwr.

Diwrnod i foli'r Arglwydd oedd hwn a dyna a gafwyd. Ei foli am ei fawredd, a diolch Iddo am ei greadigaeth a'i gariad a'i ofal trosom. A diolch yn fawr i bawb a fu ynghlwm â'r trefniadau.



Hoffai'r ysgol longyfarch ein holl ddisgyblion a'n staff ar ganlyniadau chweched dosbarth rhagorol, ein canlyniadau gorau erioed. Mae perfformiad yr ysgol oddi fewn y 10% uchaf o ysgolion yng Nghymru a Lloegr ar gyfer lefel A, ac o fewn yr 1% uchaf ar gyfer cyrsiau galwadigaethol.

Y Gadair Goll


Mae John Dilworth, cyn-glerc cyngor cymunedol y Fan wedi cysylltu â'r papur bro gan roi gwybodaeth am Gadair Eisteddfodol oedd yn wobwr yn Eisteddfod 1888 a gynhaliwyd yng Nghaerffili. Gwelir y Gadair ar ganol y llun isod o Bwyllgor Eisteddfod Caerffili 1888.



Plate 10. Caerphilly Eisteddfod Committee, 1888

Ar dudalen 62 “Photographs of Old Caerphilly” sonir am lun Pwyllgor Eisteddfod 1888 fel hyn: “Dywedwyd fod y Gadair, sydd wedi’i cherfio’n ddestlus, wedi’i hennill gan Dafydd Meurig mewn eisteddfod a noddwyd gan Edward Lewis yn y Fan yn 1580. Achubwyd y Gadair o’r dinistr pan dynnwyd rhan o’r Fan i lawr yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Derbyniodd Mr Evan Evans hi gan ddyn o’r enw Vaughan, a’i cafodd gan un o’r teulu Plymouth.”

Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf, cyn i Gaerffili ymgymryd â mantell ddiwylliannol Lewisiaid y Fan, yng Nghastell y Fan (a elwir gan rhai yn “Van Mansion) yn 1580. Meurig Dafydd, ffigwr blaenllaw llenyddol ym Morgannwg, enillodd y wobwr gyntaf o bum punt a Chadair Eisteddfodol. Bu’n fardd i Lewis y Fan am flynyddoedd lawer gan ysgrifennu yn y mesurau caeth. Yn dilyn ymlaen yn 1888 cynhaliwyd yr eisteddfod flynyddol gyntaf yng nghastell Caerffili ond daethant i ben yn 1914 gyda dechrau’r Rhyfel Byd Cyntaf. Beth bynnag, gwnaed sawl ymdrech i aildechrau’r eisteddfodau a llwyddwyd yn 1950 pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru i Gaerffili. Cyfeiriwyd at leoliad y Gadair yn y “Cardiff Times” ar y 18^{fed} o Awst 1883:



“CAERPHILLY CONFIRMATION SERVICE - On Monday morning, at 11 a.m., the Lord Bishop of Llandaff held his triennial confirmation at St Martins Church, Caerphilly.... The bishop, who had been seated in an old bardic chair (a relic of an eisteddfod 200 years ago at the Van)...”

Gwnaeth Phil Evans ymholiadau yn eglwys Martin Sant ond fe’i cyfeiriwyd at y Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd. Ymwelodd John â’r Tŷ Weindio lle cymerodd y llun yma o’r Gadair sydd yno. Ymddengys mai hon yw Cadair William Thomas (Islwyn) a enillodd yn 1874. Ond nid hon yw Cadair 1580.

Meddai John, “Byddai enillydd y cystadlaethau barddoni blynyddol wedi derbyn, fel rhan o’i wobwr, Gadair Eisteddfodol benodol, hynny yw, yr un a gyflwynwyd i’r Parchedig William Thomas (Islwyn) yn 1874.

“Felly, ble mae Cadair Eisteddfodol Meurig Dafydd ac ai Dafydd oedd bardd blaenllaw Morgannwg? Dydw i ddim yn gwybod lle mae’r Gadair bellach ond byddai’n wych petawn yn gallu dod â’r Gadair yn ôl i Gaerffili.”

Dim Problem

Cyhoeddodd ein grŵp gwerin lleol “Dim Problem” ei gryno ddisg gyntaf yr haf yma. Ynddi gellir mwynhau traciau hyfryd megis, Gwaed y Sipsi (Peaky Blinders), Taswn i’n Gyfoethog, We Need to Catch Them ac Yng Nghysgod y Golau Gwan (Mam).



Mae’n rhaid bod Dafydd Roberts, Casi Cartwright, Lewis Dafydd, Rob Dutt, Paul Snook ac Aaron Williams wedi ymlâdd yn llwyr ac yn edrych ymlaen bellach at eu gwyliau. Oherwydd bu’n haf prysur iawn wrth iddynt gymryd rhan mewn 19 o gigs dros gyfnod o 19 wythnos; ie, cyfartaledd o un gyngerdd bob wythnos!

Yn fwy na hynny cawsant wahoddiad i Wyl Genedlaethol Ukulele Cymru a gynhaliwyd ar Benrhyn Gŵyr yn ystod mis Mehefin. Yno ymddangosodd grwpiau o sawl cwr o’r byd gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Canada a Lloegr. Ond o ddiddordeb i ddarllenwyr “Cwmni” yw’r ffaith i’n cerddorion lleol dder-

byn gwahoddiad penodol i ganu yno yn y Gymraeg – yr artistiaid cyntaf i wneud hynny.

Wrth i’r chwaraewyr dorri am hoe haeddiannol iawn dros yr haf, cymysg oedd yr arolygon am y dyfodol. Byddant yn ffarwelio â’u dau unawdwr disglair - am y tro, gobeithio - gan i ni ddeall fod Casi Cartwright a Lewis Dafydd am fentro draw i Batagonia am gyfnod.

Beth bynnag am hynny, gallwn argymhell eich bod yn mynd ati i brynu copi o’r cryno ddisg. Y mae’r ddau argraffiad cyntaf wedi eu gwerthu allan yn barod ac mae hi’n werth pob ceiniog o’r £6 gan gynnwys cludiant y gofynnir amdani. Am fanylion pellach, cysylltwch yn ddiymdroi â Dafydd Roberts ar Dafgog@gmail.com

Eisteddfod y Cymoedd 2019

18^{fed} o Hydref
4:00

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws Caerffili

*Dyddiad Cau i Gofrestru er mwyn Cystadlu a
Gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth*



Dydd Llun – 7fed o Hydref

Rhaid Cofrestru

AR-LEIN

Un o bleseuau crotyn ifanc yn dod tsha thre o'r ysgol ar brynhawn dydd Gwener yn y pum degau, - heblaw am edrych 'mlân i ryddid y penwythnos - oedd gwobod bod ei fam wedi bod yn crasu bara. Ie, "crasu" bara oedden ni yng Nghwm Tawe nid ei "bobi". Edrychem ymlaen at wynt sych-felys y toes wrth inni ddod drwy gât y ffrynt. A'r pleser wedyn o weld menynd melyn tywyll Shir Gâr yn toddi ar docyn o'r bara newydd sbon. Cofiwch, stori wahanol iawn oedd hi erbyn dydd Llun. Doedd dim un cadwolyn yn y bara ac felly sychai allan mewn rhyw dridiau a ninnau wedyn yn edrych ymlaen at fara siop am weddill yr wythnos.

Yn yr un modd, doedd dillad a olchwyd ddim yn iawn i'w gwisgo os nad oedden nhw'n "gras" gan fod awgrym cryf fod "pilyn" (dilledyn) a oedd yn llipa yn cynnwys lleithder. Neu fod y dillad wedi'u "caledu" neu'n galed. Ac yn aml lapiwyd "pilyn" mewn papur newydd oedd yn amsugno unrhyw ddefnydd o leithder oedd ar ôl ynddo. Dywedwyd hefyd am rywun oedd yn aml yn agos i ddagrau ei fod e neu hi "yn un llaith".



A nôl at y bara. Wrth dynnu'r bara allan o'r ffwrn (y ffwrn oedd yn ymyl y grât dân roddai'r blas gorau) byddai mam yn ei ddyrnu. A chai foddhad o weld fod y bara yn "gras" wrth glywed y sŵn gau, gwag dan y crwstyn. Ac o'r arfer hwn y cododd y dywediad "cnoc y dorth" i ddisgrifio rhywun twp h.y.

am fod ei ben yn wag! "Pen stên" oedd y disgrifiad arall am rywun hurt, gan nad oes dim byd â sŵn mwy gwag na stên laeth â dim byd ynddi.

Bydden ni'r cryts wedyn yn gweud am rywun oedd, yn ein tyb ni, tamed bach yn araf fod y "llech" arno fe. Cyfeiriai hyn at arfer yn yr ardal o "dorri llech". Byddai ambell riant oedd yn becco am ddiffyg cynnydd plentyn yn mynd ag e neu hi at fenyw hysbys. Byddai honno wedyn yn torri cwt dan y glust er mwyn gollwng gwaed.

Mae rhegi wedi mynd yn gyfarwydd iawn erbyn hyn er nad yw'n beth newydd wrth gwrs. Ond roedd rhyw regi "parchus" i'w glywed flynyddoedd yn ôl lle byddai pobol yn dweud "diawch" neu "diall" yn lle "diawl" neu "yffach" yn lle "uffern".

Ebychiadau cyffredin oedd, "diar mi", "y nefi bliw" neu "nefi wen!" , "twt y baw", esgyrn Dafydd" ac "asen grop" (oes unrhyw un wedi clywed hynny sef "brief rib" o'r blaen). Dywedai eraill eu bod yn "benwan walis" (walics yn Aberdâr) wedi i rywbeth eu synnu'n fawr.



A petai ni blant yn cael ein dal yn rhegi cawsem: fonclust clustad/ clusten, weret, clatshen, cleren neu glwm pump. Roedd sôn am blentyn a chydag e fawr o Saesneg yn ffrio â chrotyn di-gymraeg ac am ei fygwth wrth ddweud, "Ddali di glatshen 'da fi yn y funed." Ond yr hyn ddaeth allan yn ei Saesneg prin oedd, "You'll catch a clutch with me, in a minute"!

Nid yn aml y cawn ymateb i erthyglau'r papur bro ond bu un darllenwr, ar ôl darllen 'Wnco Man 'C 1, cystal â thynnu'n sylw i ffawd y caneris a gawsai eu haberthu wrth ddod o hyd i nwyon gwenwynig yn y pyllau glo. Mae A.L. o Gaerffili yn ein sicrhau y rhoddid chwistrelliad o ocsigen i'r trueiniaid pluog hyn i'w hadfer.

Mae'n dipyn o hwyl cofio'r hen ddywediadau hyn, ond pa ddefnydd wnawn ni ohonyn nhw gyda phlant sydd ddim yn cael trochiad mor llwyr yn ein hiaith.? Yn ein tŷ ni "afans" yw mafon a "syfi" yw mefus. Ac mae'r hen eiriau yn bod yma yn y de ddwyrain—megis Cwmsyfiog yr ochr uchaf i Aberbargod. Ond onid yw'n plant yn yr Ysgolion Cymraeg â digon i'w wneud wrth ymdopi ag iaith safonol heb feddwl am fynd i'r afael â hen ddywediadau? Neu a oes cyfrifoldeb arnom i gyfoethogi eu hymgom â dywediadau bachog fel hyn?


Colofn Dafydd Islwyn

Ddydd Gŵyl Dewi 1996 ar safle capel y Presbyteriaid Saesneg, Gilfach, cysegrwyd Gardd Heddwch “i bobol y gymuned hon a gyfrannodd tuag at heddwch. Cofir am eu hymdrechion heddiw ac am byth gan drigolion diolchgar pentref Gilfach.” Wrth fynd heibio'r gofeb sylwais fod y dorch o babi coch yn dal wrth ei godre. Cofiais am englyn Ithel Rowlands [1921-2012], Machynlleth i'r Pabi Coch,

Ifanc yn nrama'r cofio – dwfn ei wrid,
Dyfnha'r ing lle byddo;
Mae barn Ypres arno
A dafn o waed o'i fewn o.

Ef yn gefnder i R. J. Rowland Y Bala, a bu wyres iddo ef yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, ysgol â'i rhan nodedig yn y wyrth sy'n digwydd yng Nghymoedd y Deddwyrain. Gŵr fu'n flaenllaw yn natblygiad y wyrth oedd Gwilym Humphreys, prifathro cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen o 1962 hyd 1975. Mor wir yw cwpled clo ei chwaer hynaf, Mair Davies, Penarth, mam Mrs Siân Nicholas a fu'n athrawes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn ei soned i Gwilym ar ei ymddeoliad y Pasg 1994,


“Ond byddai Cymru heddiw'n dlotach, mrawd
Pe bait ti heb ymroi bob dydd o'th rawd.”



Gwilym Humphreys

O'r dosbarth bychan gwirfoddol yn festri capel Hanbury Road, Bargod, trwy'r Uned mewn ysgol leol i'r safle bresennol yng Nghilfach, y tyfodd yr ysgol. Deuparth llwyddiant diwydrwydd yn bendant.

Dros y rheilffordd, a chofio i'r Parchedig Fred Jones, tua diwedd mis Hydref 1905, deithio hyd-ddi i fyny i Rymni i'w gyhoeddiad ar brawf ym Moreia, Annibynwyr y dref. Ar y trên dywedodd y Parchedig H. T. Jacob [1864-1952], Abergwaun, wrtho fod pobol Rhymni yn gwybod pwy oedd pwy a beth oedd beth. Derbyniodd pobol Moreia Fred Jones [1877-1948] a bu'n weinidog yno o Orffennaf 1906 hyd Fis Bach 1917. Yn “Rhai Atgofion” dywedodd ef “.... profais yn Rhymni rym hen ddiwylliant Cymru ar ei orau!”



Taro'r goleuadau traffig, yr ail o bump ar y daith. Flynyddoedd yn ôl gweithiodd Bob Edwards, Frongoch, Y Bala, englyn delweddol iddynt. Wrth feddwl amdano, brawd-yng-nghyfraith Ithel Rowlands a thad y Prifardd Elwyn Edwards, Y Bala, y gerdd gynta ddaw i'r co' ydy ei gerdd, “Cyflwynedig i Mrs Margaret J. Blumenstein ar ei hymddeoliad o Ysgol Fron-goch, Y Bala, ar y 10fed o Orffennaf 1981”. A'r disgrifiad byw hwn yn taro deuddeg,

Ac fel mam un gyflym oedd
Ym mesur ysgarmesoedd
A rhwydo y direidus
Heb air ond codi bys.


Ymuno â'r A469 ac i lawr i Glan y Nant ac aros wrth Ysgol Lewis, Pengam, am fod goleuadau traffig croesffordd Pengam yn goch. Yn y traethawd “*Morgan Jones Educationalist and Labour Politician*” dywedir, “*Morgan began his education at Gelligaer and Hengoed Elementary schools and then managed to win a scholarship to Lewis School, Pengam, one of Glamorgan's most prestigious schools, which he entered on the 3rd of August 1897!*” Bu ef yn yr ysgol tan 1901.

Dau gyn-ddisgybl yr oeddwn i'n gyfarwydd â hwy oedd yr englynwr o Rymni, T. J. Harris a oedd yn ddisgybl yno o 1921-1927 ac yn “brefect” yn 1926. Yn 1929 roedd T. I. Thomas, Abertridwr, yn un o bum arweinydd Adran yr Urdd yn yr ysgol. Pan ddechreuais ar fy ngyrfa fel athro yn Ysgol Gynradd Trelewis bum yn ffodus ei gael yn brifathro. Yn cydoesi â nhw yr oedd y dramodydd George Fisher o Gilfach.

We, fe ddaeth mis Medi ac mae'r plant a'u hathrawon nôl yn yr ysgol. I rai plant (ac athrawon!) mae dechrau blwyddyn newydd yn amser digon diflas am fod y gwyliau hir wedi dod i ben. Mae cerdd y mis yma gan Tudur Dylan yn sôn am bynciau ysgol. Dydy'r person yn y gerdd ddim yn hoffi gwersi'r ysgol ac mae'n esbonio pam. Rwy'n hoffi'r hiwmor yn rhai o'r rhesymau mae'n eu rhoi : maen nhw'n dweud bod pobl sy wedi astudio Daearyddiaeth yn cael problemau gyda ffeindio eu ffordd o gwmpas! Cofiwch fod mwy nag un ystyr posibl i 'di-liw' a 'colli eu blas'. Ceisiwch ddefnyddio'r idiom 'chwiit-chwat' – mae'n un dda!

Gwersi


Mae Arlunio'n boen a does gen i ddim cliw,
Ac mae'r athro ei hun y peth mwya di-liw.
Mae'n gas gen i Ffrangeg, wir i chi,
Ond mae'n rhaid i mi'i gymryd, felly *C'est la vie!*
Yn y gwersi Cerddoriaeth, dw i braidd yn chwiit-chwat
Mae mhen i fel drwm, ac mae popeth yn fflat.
Yn Technoleg Bwyd, mae'r athrawes yn gas
Ac felly mae'r gwersi yn colli eu blas.
Yn Daearyddiaeth, mae gen i wir ddawn,
Ond mod i'n methu cael hyd i'r ystafell yn iawn.
Dw i'n cyfri a chyfri yn Maths am y gore,
Sef cyfri'r munudau tan amser mynd adre.



dod i ben : to come to an end *pynciau* : subjects
di-liw : colourless / without personality
cael hyd i : to find *colli eu blas* : to lose their taste / become less enjoyable
am y gore : with my best effort *cyfri* : to count

esbonio : to explain *rhesymau* : reasons
chwiit-chwat : inconsistent, changeable

Atebion Posau'r Plant



Eisteddfod y Cymoedd

Rhestr Testunau 2019

Mae pob cystadleuaeth yn hunan-ddewisiad oni nodir yn wahanol

Adran Gynradd

1. Unawd BI 2-4
2. Unawd BI 5-6
3. Llefaru BI 2-4
4. Llefaru BI 5-6
5. Llefaru i ddysgwyr BI 6 ac iau
6. Unawd Offerynnol BI 6 ac iau
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd
7. Parti neu Gôr BI ac iau
Perfformiad heb fod dros 5 munud a dim mwy na dau ddarn.
Croesawir elfennau theatrig yn y perfformiad
NODDIR Y GYSTADLEUAETH YMA GAN CÔR
1af £150 + cwpan 2ail £100 3ydd £50
8. Dawnsio Gwerin Unigol BI6 a iau
*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***
9. Dawnsio Disgo Unigol BI6 ac iau.
Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio.
*Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***
10. Dawnsio Grŵp Gwerin BI6 ac iau
Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio.
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd ** +*
11. Dawnsio Grŵp Disgo BI 6 ac iau
Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio.
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd ** +*

Rhoddir gwobr o £30 am berfformiad mwyaf addawol unawdol cynradd cystadleuaeth 1 –6 a

Adran Uwchradd

12. Unawd BI 7-9
Perfformir 1 darn yn unig
13. Unawd BI 10-13
Perfformir 1 darn yn unig
14. Llefaru unigol Oedran Uwchradd
Perfformir 1 darn yn unig
15. Llefaru Unigol i Ddysgwyr Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd
16. Grŵp Llefaru i Ddysgwyr Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd
17. Dawnsio Gwerin Unigol Uwchradd
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***
18. Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd
*Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio.
19. Dawnsio grŵp Disgo Uwchradd
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**+*
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
20. Dawnsio grŵp Gwerin Uwchradd
*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**+*
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
21. Unawd Offerynnol Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oedran Uwchradd yng nghystadlaethau

****Cynhelir y cystadlaethau yn y neuadd ddawns ac fe fe fydd y buddugol yn perfformio ar y prif lwyfan****

+ Cyflwynir 'Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol ym marn y beirniaid i gystadlaethau 10, 11, 17, 18 a 33

Adran Hŷn / Agored

22. Unawd Lleisiol Agored

Perfformiad o 1 darn yn unig

1af - £50 2ail - £30 3ydd -£20

23. Unawd Canu Emyn

Unrhyw emyn allan o Caneuon Ffydd

1af £20 2il £15 3ydd £10

24. Unawd Sioe Gerdd Agored

Darperir cyfeilydd swyddogol

Perfformiad ddim yn fwy na 5 munud

1af £50 2il £30 3ydd £20

25. Llefaru Agored Unigol

Cyflwyniad hunan-ddewsiad heb fod dros 5 munud

mewn hyd ac fe ellir defnyddio unrhyw ffynhonnell

1af £50 2ail £30 3ydd £20

26. Grŵp Llefaru Agored

Cyflwyniad o 1 darn yn unig

1af £50 2ail £30 3ydd £20

27. Côr Ieuenctid Bl 13 ac Iau

2 ddarn cyferbyniol yn unig

1af £100 2il £50 3ydd £30

28. 2awd, 3awd neu 4awd Cerdd Dant

1af £50 2ail £30 3ydd £20

29. Parti neu Gôr Cerdd Dant

1af £50 2ail £30 3ydd £20

30. Parti/Côr Gwerin Agored

Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd. Nid oes hawl

perfformio yr un darnau yng nghystadleuaeth 32

1af £50 2ail £30 3ydd £20

31. Grŵp Dawnsio Agored

Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth

wedi ei recordio Dawns heb fod dros 4 munud o hyd

1af £100 2ail £50 3ydd £25

32. Côr Agored Wedi ei Noddi gan CÔR

Perfformiad ddim yn fwy na 8 munud.

Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn

nifer. Cyflwyno 2 ddarn cyferbyniol ac i gynnwys 1 darn

gan gyfansoddwr o Gymru

1af - £300+ cwpan 2ail - £200 3ydd £100

Adran Lenyddiaeth

33. Cystadleuaeth Lenyddol Agored Cynradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

34. Cystadleuaeth Lenyddol Agored Uwchradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

Gall fod yn gerdd, ymson, stori ddychmygol, neu yn rhan o ddyddiadur.

Caniateir cyflwyno un darn o waith yn unig i'r gystadleuaeth yma.

35. Limerig

£10 i'r buddugol- i gynnwys y llinell

'Aeth Warren â'i garfan i Tokyo'

36. Cerdd

Heb fod dros 50 llinell ar y thema 'Gobaith' £10

37. Englyn ar y thema 'Brexit' £10

38. Llinell Goll – Cystadleuaeth ar gyfer noson yr

Eisteddfod Gofynnir am £1 ar y noson i gystadlu

Adran Ffotograffiaeth Agored i unrhyw oed

39. Cyfres o luniau ar y thema 'MÔR a MYNYDD'

1af £15 2ail £10 3ydd £5

40. Llun unigol ar y thema 'HAPUS'

1af £15 2ail £10 3ydd £5

RHEOLAU CYSTADLAETHAU LLENYDDOL a FFOTOGRAFFIAETH

1. Dyddiad Cau derbyn y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth yw **Dydd Llun y 7fed o Hydref**.
2. Gellir danfon lluniau yn ddigidol neu wedi eu hargraffu.
3. Derbynnir y mathau canlynol o luniau - Jpeg / Tiff / PDF.
4. Wrth ddanfon y gweithiau at yr Eisteddfod, derbynnir y byddant o bosib yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Eisteddfod ac yn y Papur Bro lleol – 'Cwmni'.
5. Gobeithiwn y bydd y lluniau a'r gwaith celf i'w gweld ar y noson yn Ysgol Gyfun Cwm

Mae gofynion cystadleuaeth 32 - Côr Agored yn 'Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'. Bydd cystadlu mewn dwy Eisteddfod rhwng Mai 2018 a Mai 2020 rhoi'r hawl i'r côr gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020



Dyddiad cau i gofrestru er mwyn cystadlu a danfon y gwaith llenyddol a ffotograffiaeth

Dydd Llun, 7fed o Hydref Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan

Rhaid Cofrestru ar-lein

www.eisgeddfodcymru.cymru

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa: Dydd Gwener ,13 Medi

"Cawl" a Straeon Eraill gan awduron amrywiol

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso cynnes i bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Medi'r 9fed: Sesiwn Agored

Hydref 7fed: Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros

Tachwedd 4ydd: Ysbryd yr Oes gan Mari Willilams

Rhagyr 2ail: Promenâd y Gwenoliaid gan Gareth Williams

penneyje961@gmail.com

Hanes Cwm Ni

3/10/19 Dr Adrian Price

Hanes y Ddraig Goch

7/11/19 Gareth Thomas

Menywod lolo Morganwg: yr
ing, ecstasi a siom

Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702



Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



SADWRN SIARAD



Tafarn Maesycwmmmer Inn

Ymunwch a ni i wyllo gemau rygbi Cymru yng nghwpan y byd.

Bydd y dafarn ar agor 30 munud cyn bob gem.

Rôl brecwast yn ystod hanner amser.

Cymru v Georgia - Medi 23 @11:15am

Cymru v Awstralia - Medi 29 @8:45am

Cymru v Fiji - Hydref 9 @10:45am

Cymru v Wrwgwai - Hydref 13 @9:15am

Cysylltwch i rhoi gwybod eich bod am ddod

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Medi 28 September 2019

10:00-12:00

Caffi'r Ffynnon,

Capel Argoed NP120HG



CANOLFAN HAMDDEN CAERFFILI



Dydd Mawrth

10:15am - 11:15am

Hwyl a sbri a chanu yn y pwll

drwy'r iaith Gymraeg.

Nid yw'n wersi nofio

(Anghen i rhieni bod yn y dwr)



BBC
radio
cymru

CARYL PARRY JONES
YN CYFLWYNO

Côrdydd a C.Ô.R

JEFFREY HOWARD | MIRIAM ISAAC

CYNGERDD LAWNSIO CD

Trefniannau Jeffrey Howard o rai o'n hoff emynau
Eglwys y Tabernacl | 29.09.2019 | 7.30pm

Tocynnau AM DDIM

AM FWY O FANYLION
cordydd1@gmail.com
osian_llyr@hotmail.com

CANIADAETH Y CYSEGR YN 70

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Dydd Sul, 22^{ain} o Fedi

11:00 yng

Ngardd Llanofer ger Y Fenni

Ffair Planhigion Prin

Crwydrwn yn Hamddenol a Bydd Cyfle
i Brynu Ambell Blanhigyn

Ymwelwn â bedd Sir Benjamin Hall a'i
wraig Augusta (Gwenynen Gwent).

Darperir lluniaeth ysgafn.

Croesawn Aelodau Newydd a Dysgwyr

Os hoffech ddod ag angen lle mewn car,
cysylltwch â Gaynor:

07984 197629 neu gaynorw555@gmail.com

Penwythnos Dysgwyr Maldwyn

Canolfan Nant Hirwen, Moelfre, Croesoswallt, Powys
Dydd Gwener 25 – Dydd Sul 27ain o Hydref
Cwrs Cymraeg i ddysgwyr canolradd i uwch!
Gweithgareddau diddorol i ymarfer eich
Cymraeg!

£90 i bobl mewn gwaith
£75 i bobl ddi-waith

Am ddim i Ffoduriaid a Cheiswyr Lloches

CYFARFOD CYNLLUNIO

TEITHIAU CLWB CERDDED

Medi 4ydd

Swyddfa Menter Caerffili

**Suite 1, Parc St Margaret's,
Aberbargod CF819FW**

COFIWCH DRYWERYN

**Bore o weithgareddau
i ddysgu mwy am
hanes Tryweryn
Croeso i bawb!**

Ble? Neuadd Coleg Gwent Pontypŵl NP4 5YE ac wedyn y tu fas hefyd
In the hall, Coleg Gwent Pontypŵl then outside, weather permitting

Pryd? Dydd Mawrth 17/9/19 am 10:30am - 13:00
Tuesday 17th September 2019 at 10:30am until around 1pm

Beth? Sgwrs gan Gareth Thomas am Hanes Tryweryn
A talk by Gareth Thomas about the history of Tryweryn

Beth? Gweithdy peintio murlun 'Cofiwch Dryweryn'
Hands-on workshop to paint a 'Cofiwch Dryweryn' mural

Am ragor o fanylion / for further details cysylltwch â
helen.young@coleggwent.ac.uk neu ffoniwch
01495 333710

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

GWYL NEWYDD

Coleg Gwent



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg



Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
Trefforest CF375YB

Ar agor pob dydd Gwener cynta'r mis
09:00 – 17:00.

www.twtlol.com

